# TALU AM EICH CAIS

Dim ond pan fydd pob adran o'ch ffurflen gais wedi'u marcio â thic coch y gallwch chi anfon eich cais a thalu amdano. Os ydych chi'n gwneud cais drwy ysgol neu goleg, bydd modd iddyn nhw gwblhau geirda ac anfon eich cais atom ar ôl i chi dalu amdano. Os ydych chi'n gwneud cais yn annibynnol yna gallwch dalu am eich cais a'i anfon atom pan fydd eich canolwr wedi cwblhau'r geirda.

**Os nad yw eich taliad yn cael ei dderbyn...**

gwnewch yn siŵr:

- eich bod chi wedi llenwi manylion eich cerdyn yn gywir ac eich bod wedi llenwi'r holl feysydd â'r wybodaeth gywir:
  - y rhif 16 digid cywir ar du blaen y cerdyn.
  - dyddiad gorffen, a dyddiad dechrau os caiff ei ddangos, oddi ar flaen y cerdyn.
  - y 3 digid olaf oddi ar y stribed llofnodi ar gefn y cerdyn.
  - rhif y gyfres fel mae'n ymddangos ar flaen eich cerdyn os oes gennych chi gerdyn Maestro neu Visa Electron.
- bod gennych chi ddigon o arian yn eich cyfrif i dalu am y cais – £13 os ydych chi'n gwneud cais am un cwrs neu £24 os ydych chi'n gwneud cais am fwy nag un cwrs, neu os ydych chi'n ymgeisio ar ôl 30 Mehefin.

**Os ydych chi'n gwneud cais o'r tu allan i'r DU**

Gall eich taliad beidio â gweithio am nifer o resymau.

- Gall eich banc gredu bod y taliad yn dwyllodrus oherwydd ei fod yn cael ei dalu i wlad arall. Os dyma'r achos, bydd yn rhaid i chi gysylltu â'ch banc i gadarnhau eich bod chi eisiau gwneud y taliad.
- Efallai nad yw'ch cerdyn wedi cael ei gofrestru i wneud taliadau ar-lein – mae hyn yn ofynnol ar gyfer pob taliad rydyn ni'n ei dderbyn. Os hynny, bydd yn rhaid i chi fynd ar wefan eich banc (neu gysylltu â'ch banc) i gofrestru'r cerdyn ar gyfer Verified by Visa neu Mastercard Securecode (yn dibynnu ar ba gerdyn rydych chi'n ei ddefnyddio).

Os nad yw'r taliad yn cael ei dderbyn ar ôl gwneud hyn, cysylltwch â ni.